**Adroddiad i:** Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 23 Mawrth 2016

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Barbara Smith

**Awdur yr Adroddiad:** Catrin Roberts / Andrea Malam

**Teitl:** **Polisi Rhannu Pryderon**

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae’r Polisi Rhannu Pryderon wedi cael ei ddiwygio, ei ddiweddaru a’i adolygu yn unol â deddfwriaeth.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Ennill cytundeb Llywodraethu Corfforaethol i argymell y polisi hwn i'r Cyngor i'w fabwysiadu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Llywodraethu Corfforaethol yn argymell y polisi uchod i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

## 4. Manylion yr Adroddiad

**Polisi Rhannu Pryderon**

Mae'r polisi wedi cael ei ddiweddaru a’i ailfformatio i gynnwys rolau a chyfrifoldebau cliriach a’r newidiadau deddfwriaethol. Daeth y Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio (2013) â nifer o newidiadau sy'n effeithio ar rannu pryderon. Y tri newid allweddol yw’r canlynol:

a) Dim ond datgeliadau a wnaed 'er budd y cyhoedd' sy’n cael eu gwarchod. Erbyn hyn mae’n rhaid i weithwyr ddangos eu bod 'yn rhesymol gredu' bod y datgeliad maent yn ei wneud er 'lles y cyhoedd'.Cael gwared ar y gofyniad i ddatgeliadau gael eu gwneud yn 'ddidwyll’ er mwyn eu diogelu.
c) Gwneud cyflogwyr yn atebol am weithredoedd y gweithwyr (megis aflonyddu cydweithiwr sydd wedi codi pryder) a gwneud gweithwyr yn atebol yn bersonol.

Cyfeiriwch at y polisi a gynhwysir yn yr atodiad.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y Polisi Rhannu Pryderon yn cynorthwyo'r Blaenoriaethau Corfforaethol drwy helpu i foderneiddio'r cyngor drwy sicrhau bod rheolwyr a gweithwyr yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau yn unol â deddfwriaeth ac arferion da.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes angen adnoddau ychwanegol, felly ni fydd unrhyw gostau ynghlwm wrth weithredu'r polisi hwn. Ni fydd unrhyw effaith benodol ar adran arbennig. Bydd y polisïau yn berthnasol i bob aelod o staff (lle nodir).

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Gweler yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn amgaeedig. Nid oes unrhyw faterion sylfaenol a amlygwyd gyda'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae'r polisïau i gyd wedi bod i'r Cyd Gyfarfod Corfforaethol dydd Iau 17 Medi a dydd Mercher 4 Tachwedd ar gyfer sylwadau ac wedi cael eu e-bostio i'r Cyd Gyfarfod Corfforaethol am adborth gan aelodau'r Cyd Gyfarfod Corfforaethol nad oedd wedi mynychu'r cyfarfodydd hynny ac felly mae'r holl aelodau wedi cael cyfle i roi adborth. Aeth y Polisi i'r CBYLl ar 10 Chwefror 2016 a chytunwyd arno mewn egwyddor, fodd bynnag, nid oedd y cyfarfod yn gwneud cworwm.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r risgiau ond yn gysylltiedig â pheidio â gweithredu'r polisi sydd ynghlwm. Mae'r fersiynau presennol o'r polisi wedi dyddio'n fawr iawn o ran deddfwriaeth a rhaid i ni sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu'n gywir ac yn gyson.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amherthnasol.